

Archwiliad Cenedlaethol o Dementia  
Gofal mewn Ysbytai Cyffredinol 2016-2017  
Adroddiad Archwilio y Drydedd Rownd



# Crynodeb Gweithredol

## Cefndir

Comisiynwyd yr Archwiliad Cenedlaethol o Dementia (ADC) o ofal mewn ysbytai cyffredinol gan y Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd ar ran GIG Lloegr a Llywodraeth Cymru, fel rhan o'r Rhaglen Archwilio Clinigol Genedlaethol. Mae'r ADC yn archwilio agweddau o'r gofal a dderbynnir gan bobl â dementia mewn ysbytai cyffredinol yng Nghymru a Lloegr.

## Rheoli a llywodraethu'r archwiliad

Caiff yr archwiliad ei reoli gan Goleg Brenhinol y Seiciatryddion, mewn partneriaeth â'r canlynol:

- Coleg Brenhinol Nyrsio
- Coleg Brenhinol y Meddygon
- Cymdeithas Brydeinig yr Henoed
- Y Gymdeithas Alzheimer
- Cynghrair Gweithredu ar Dementia
- Age UK
- John's Campaign.

## Pwy ddylai ddarllen yr adroddiad hwn

Yn unol ag arweiniad 'Adrodd er mwyn gweld Effaith' y Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd, dyluniwyd yr adroddiad hwn er mwyn darparu gwybodaeth ar gyfer:

- Pobl sy'n derbyn gofal neu'n darparu gofal i rywun – pobl â dementia a'u teuluoedd
- Pobl sydd ynghlwm â darparu gofal – staff proffesiynol, rheolwyr a Byrddau Ymddiriedolaeth sy'n gweithio mewn ysbytai cyffredinol yng Nghymru a Lloegr
- Pobl sydd ynghlwm â chomisiynu gofal – GIG Lloegr, Llywodraeth Cymru, grwpiau comisiynu clinigol
- Pobl sy'n rheoleiddio gofal – gan gynnwys y Comisiwn Ansawdd Gofal a gweithwyr proffesiynol gwella ansawdd ar archwilio clinigol.

## Casglu data ac adrodd

Casglwyd y data ar gyfer y rownd archwilio hon rhwng Ebrill a Thachwedd 2016. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar 13 Gorffennaf 2017.

## Cyfranogiad defnyddwyr y gwasanaeth a gofalwyr

Mae cynrychiolwyr sydd â phrofiad o fyw â dementia neu ofalu am rywun sydd â dementia yn rhan o'r Grŵp Llywio sy'n cynghori ar bob agwedd o'r prosiect, ynghyd â chynrychiolwyr o'r sefydliadau a nodir uchod. Llywiwyd datblygiad yr holiadur i ofalwyr yn y rownd archwilio hon gan banel cynhwysiant cleifion a'r cyhoedd y Coleg Imperial. Roedd y gofalwyr a oedd yn cymryd rhan yng nghyfnod prawf yr holiadur yn dychwelyd sylwadau ar y cynnwys a'r fformat.

## Casglu data ac anhysbysrwydd

Ni chasglwyd data lle gellir adnabod y claf fel rhan o'r archwiliad o nodiadau achos. Dosbarthwyd arolygon i staff a gofalwyr gydag amlenni rhagdal i'w dychwelyd at y Tîm Prosiect, neu cafwyd eu llenwi ar-lein. Ni ofynnwyd am fanylion personol.

Rhoddodd y gofalwyr a lenwodd yr holiadur ar gyfer y rownd archwilio hon sylwadau rheolaidd ar ansawdd y gofal a dderbyniwyd gan bobl â dementia (gweler tudalen 38). Mae'r sylwadau hyn yn rhoi mewnwelediad a chyd-destun defnyddiol iawn i ni, ac rydym yn rhoi trosolwg o'r sylwadau a dyfyniadau ohonynt. Er mwyn cadw enwau'r cyfranwyr yn gyfrinachol, nid ydym wedi defnyddio sylwadau gair-am-air.

## Dementia mewn ysbytai cyffredinol

Dementia yw'r term a ddefnyddir er mwyn disgrifio ystod o symptomau sy'n niweidio'r ymennydd, fel clefyd Alzheimer neu gyfres o strociau. Mae'r symptomau'n amrywio'n fawr ond gall gynnwys colli cof ac anawsterau meddwl, iaith a datrys problemau, a newid hwyliau ac ymddygiad<sup>b</sup>.

I rywun â dementia, mae'r symptomau hyn yn ddigon difrifol i achosi problemau sylweddol ym mywyd pob dydd. Mae dementia'n fwyaf cyffredin ymysg pobl dros 65 oed, ac mae'r tebygolrwydd o ddatblygu dementia'n cynyddu wrth fynd yn hŷn. Yn gyffredinol, nid yw pobl yn mynd i'r ysbyty ar gyfer dementia. Mae'r rhesymau cyffredin a nodir gan y Gymdeithas Alzheimer<sup>c</sup> yn cynnwys syrthio, torri'r glun, strôc, haint y llwybr wrinol a heintiau anadlol yn flaenorol. Yn yr archwiliad hwn, roedd 50% o'r prif achosion ar gyfer mynd i'r ysbyty naill ai yn syrthiadau, torri neu ysigo clun neu, yn ymwneud ag anadlu neu heintiau wrinol.

Mae mynd i'r ysbyty'n brofiad anodd dros ben i bobl â dementia. Mae salwch neu anaf, amgylchiadau ac arferion anghyfarwydd, ac amgylchedd prysur sy'n canolbwyntio ar dasgau yn gallu gwaethygu symptomau dementia, a chynyddu'r risg o ddeliriwm. Mae'r Gymdeithas Alzheimer yn dyfynnu ffigyrau a gafwyd gan yr Adran Iechyd sy'n nodi bod pobl â dementia mewn ysbytai yn cyfrif am tua 3.2 miliwn o ddiwrnodau gwely bob blwyddyn. Mae llywodraethau Lloegr a Chymru wedi amlygu gofal dementia mewn ysbytai fel un o'r blaenoriaethau i'w gwella. Mae GIG Lloegr yn ymrwmo i gynorthwyo gweithredu Cynllun Gweithredu Herio Dementia 2020 y Prif Weinidog ac mae'n cefnogi menter Ysbytai sy'n Deall Dementia y Gynghrair Gweithredu ar Dementia.

b [https://www.alzheimers.org.uk/info/20007/types\\_of\\_dementia/1/what\\_is\\_dementia](https://www.alzheimers.org.uk/info/20007/types_of_dementia/1/what_is_dementia)

c [https://www.alzheimers.org.uk/download/downloads/id/2907/fix\\_dementia\\_care\\_-\\_hospitals.pdf](https://www.alzheimers.org.uk/download/downloads/id/2907/fix_dementia_care_-_hospitals.pdf)

d [https://www.alzheimers.org.uk/download/downloads/id/2907/fix\\_dementia\\_care\\_-\\_hospitals.pdf](https://www.alzheimers.org.uk/download/downloads/id/2907/fix_dementia_care_-_hospitals.pdf)

Cynhaliwyd dwy rownd flaenorol o'r archwiliad hwn, gan adrodd yn 2011 a 2013. Gwelodd ail rownd yr archwiliad bod rhywfaint o welliant wedi bod mewn prosesau gofal, fel cynlluniau rhyddhau o'r ysbyty ac asesiadau, a chynyddodd y cymorth ar gyfer dementia mewn ysbytai yn sgil cyflwyno uwch-arweinyddion clinigol, eiriolwyr dementia a darparu hyfforddiant. Awgrymodd ail rownd yr adroddiad y dylid casglu adborth gan ofalwyr pobl â dementia a staff sy'n darparu gofal, er mwyn cael dealltwriaeth well o agweddau gofal pwysig fel cyfathrebu a deall anghenion unigol.

Casglodd trydedd rownd yr Archwiliad ddata rhwng Ebrill a Thachwedd 2016. Cymerodd 199 o ysbytai yng Nghymru a Lloegr ran yn yr archwiliad, a gofynnwyd iddynt lenwi pedair elfen<sup>e</sup> :

- Rhestr wirio sefydliadol i ysbytai
- Archwiliad nodiadau achos yn edrych yn ôl, gyda tharged o leiafswm o 50 set o nodiadau cleifion
- Arolwg o brofiad gofalwyr o ansawdd gofal
- Holiadur i staff ynglŷn â darparu gofal a chymorth i bobl â dementia.

Roedd 98 y cant (199/203) o'r ysbytai oedd yn gymwys i gymryd rhan ledled Cymru a Lloegr wedi cyflwyno data ar gyfer yr archwiliad cyfan, neu ran ohono. I gyd, derbyniodd yr archwiliad 199 o restrau gwirio sefydliadol, 10047 cyflwyniad nodiadau achos, 14416 o holiaduron staff a 4664 o holiaduron gofalwyr.

## Trosolwg o'r canlyniadau

Mae'r Archwiliad Cenedlaethol o Dementia (gofal mewn ysbytai cyffredinol) yn mesur perfformiad ysbytai cyffredinol yn erbyn meini prawf yn ymwneud â chyflwyno gofal rydym yn gwybod ei fod yn effeithio ar bobl â dementia mewn ysbytai. Cymerwyd y meini prawf hyn o arweiniad cenedlaethol a phroffesiynol, gan gynnwys arweiniad a Safonau Ansawdd NICE, siarter Ysbytai sy'n Deall Dementia, ac adroddiadau gan y Gymdeithas Alzheimer, Age Concern a Cholegau Brenhinol. Casglwyd y rhain ynghyd fel set o safonau, y gellir eu gweld ar wefan yr archwiliad, ynghyd â'u ffynonellau a'r cwestiynau a ddefnyddiwyd ar gyfer mesur yn yr archwiliad hwn.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys canlyniadau o setiau data yn cynnwys yr holl ddata a gyflwynwyd gan yr holl ysbytai yng Nghymru a Lloegr a gymerodd ran yn nhrydedd rownd yr archwiliad. Caiff y canlyniadau o bob un o'r pedwar offeryn yn y rownd hon eu cyflwyno gyda'i gilydd.

<sup>e</sup> [www.rcpsych.ac.uk/workinpsychiatry/qualityimprovement/nationalclinicalaudits/dementia/nationalauditofdementia/thirdroundofaudit.aspx](http://www.rcpsych.ac.uk/workinpsychiatry/qualityimprovement/nationalclinicalaudits/dementia/nationalauditofdementia/thirdroundofaudit.aspx)

## Themâu'r archwiliad

Caiff y safonau archwilio eu mesur ar draws bob un o'r offerynnau. Felly, mae'r data a gyflwynwyd yn cael ei gyflwyno fesul thema, gan gyflwyno'r data o bob offeryn gyda'i gilydd.

Y themâu yw:

### 1. Asesu

Data o'r archwiliad o nodiadau achos. Mae hyn yn ystyried a yw pobl â dementia sy'n mynd i'r ysbyty wedi derbyn asesiad cynhwysfawr, a pha mor llwyddiannus yw pob elfen o'r asesiad.

### 2. Gwybodaeth a chyfathrebu

Data o restr wirio'r sefydliad, yr archwiliad o nodiadau achos a holiaduron y staff a'r gofalwyr. Mae hyn yn edrych ar y systemau cyfathrebu a ddefnyddir yn yr ysbyty, tystiolaeth o'u defnydd yn y nodiadau achos ac mae'n cyflwyno adborth gan ofalwyr a staff am ansawdd y cyfathrebu.

### 3. Staff a hyfforddiant

Data o restr wirio'r sefydliad, holiaduron y staff a holiaduron y gofalwyr. Mae'n ystyried y ddarpariaeth o ran staff, hyd a lled yr hyfforddiant a roddir mewn ysbytai ac mae'n cyflwyno adborth gan staff ynghylch ansawdd yr hyfforddiant.

### 4. Maetheg

Data o restr wirio'r sefydliad a'r holiaduron staff. Mae hyn yn ystyried a oes gan ysbytai wasanaethau sy'n darparu ar gyfer anghenion pobl â dementia, ac mae'n cyflwyno adborth gan staff ynghylch ansawdd y gwasanaeth.

### 5. Rhyddhau o'r ysbyty neu drosglwyddo

Data o restr wirio'r sefydliad a'r archwiliad o nodiadau achos. Mae'n ystyried hyd a lled y cynlluniau ar gyfer rhyddhau pobl â dementia o'r ysbyty ac a ydyn nhw a'u gofalwyr wedi derbyn gwybodaeth ddigonol amdano.

### 6. Llywodraethu

Data o restr wirio'r sefydliad a'r holiaduron staff. Mae hyn yn ystyried cynnwys arweinyddiaeth mewn ysbytai a'r Bwrdd Gweithredol wrth arwain, cynllunio a monitro gofal, adolygu'r amgylchedd ac ymgysylltu â gofalwyr.

Yn y rownd hon, rydym yn gweld bod ysbytai wedi dechrau cyflwyno nifer o'r gwelliannau sydd eu hangen er mwyn cefnogi gofal i bobl â dementia, yn fwyaf nodedig wrth ddarparu hyfforddiant, arweinyddiaeth mewn wardiau a defnyddio gwasanaethau sy'n ystyried anghenion cymhleth. Fodd bynnag, mae'r adborth gan ofalwyr a staff yn dangos bod angen cynnydd mewn sawl maes o hyd, neu mae'r cynnydd yn anghyson. Mae rhywfaint o'r ffordd i fynd cyn i'r newidiadau gael eu hymgorffori.



## Sgoriau yn nhrydedd Rownd yr archwiliad

Am y tro cyntaf, rydym yn cyflwyno sgoriau ar lefel ysbyty. Mae'r system sgorio'n golygu y gellir cymharu'r ysbytai'n hawdd yn ôl gwahanol themâu'r archwiliad, a gellir gweld tabl o'r holl sgoriau fesul ysbyty yn Atodiad A. Mae saith sgôr i gyd, a phob un yn berthnasol i thema allweddol yn yr archwiliad, a'r sgôr gyffredinol am ofal gan ofalwyr. Mae'r ystod o sgoriau yn genedlaethol yn cael ei gyflwyno o fewn pob pennod canlyniadau, lle bo'n berthnasol.

Caiff y sgoriau eu tynnu o ffynonellau data ar wahân, a dylid eu hystyried yn annibynnol ar ei gilydd. Er enghraifft, dylid cymharu sgôr ysbyty ar gyfer Asesu â sgoriau Asesu eraill, yn hytrach na'r sgoriau eraill ar gyfer yr ysbyty hwnnw. Y rheswm am hyn yw efallai nad yw sgôr uchaf yr ysbyty'n adlewyrchu ei faes llwyddiant mwyaf, os yw'n thema lle mae pob ysbyty wedi cael sgôr uchel. Gallwch weld y dull llawn ar gyfer sgorio yn Atodiad B.

Nid yw pob ysbyty wedi derbyn set gyflawn o sgoriau. Er mwyn derbyn set gyflawn, roedd angen i ysbytai ddarparu un rhestr wirio gyflawn ar gyfer y sefydliad, dros 19 o nodiadau achos, o leiaf 20 o holiaduron staff ac o leiaf 10 holiadur gofalwyr. Ni dderbyniodd yr ysbytai sydd â nifer llai na'r nifer angenrheidiol sgôr ar gyfer y thema honno.

Mae'r niferoedd cyfartalog cymedrig cenedlaethol ar gyfer pob sgôr ar dudalen 22.

## Canfyddiadau allweddol

### Mae angen gwella'r ffordd o gofnodi deliriwm

Mewn dros hanner y nodiadau achos o bobl â dementia, nid oedd cofnod o sgrinio neu wirio symptomau deliriwm ar y dechrau. Efallai bod anghysondeb yn yr hyn sy'n cael ei gyfathrebu a'i gofnodi yn effeithio ar ofal clinigol, ac felly, gall gynyddu risg yr unigolyn â dementia o ddatblygu deliriwm.

### Rhaid i wybodaeth bersonol er mwyn cynorthwyo gofal gwell fod yn hygyrch

Roedd hapwiriad a gynhaliwyd yn ystod yr archwiliad yn chwilio am y ddogfen a oedd yn cynnwys gwybodaeth bersonol allweddol am anghenion gofal a chyfathrebu, y dylid ei gwblhau ar gyfer pobl â dementia, a gwelodd nad oedd gan hanner y cleifion un ohonynt. Dywedodd 40 y cant o staff nad oeddent yn gallu cael y wybodaeth hon y rhan fwyaf o'r amser, a dywedodd llai na hanner y gofalwyr bod y staff yn wybodus, gan ddewis 'yn bendant'.

**Rhaid i wasanaethau fodloni anghenion maethgol pobl â dementia** Dylai gwasanaethau arlwyio mewn ysbytai ddarparu ar gyfer anghenion pobl â dementia, oherwydd efallai nad ydynt yn gallu bwyta prydau bwyd llawn ar yr amseroedd arferol, ac mae angen dewisiadau amgen fel bwydydd bys a bawd a byrbrydau ar gael ar unrhyw adeg er mwyn sicrhau eu bod yn cael y maeth sydd ei angen. Dywedodd llai na 75% o staff eu bod yn gallu rhoi bwyd bys a bawd neu fyrbrydau rhwng prydau i'r cleifion hyn. Roedd 24 y cant o'r staff yn meddwl y bodlonir anghenion maethgol pobl â dementia weithiau, neu nid oeddent yn cael eu bodloni.

## Mae eirioli dementia'n golygu cynorthwyo staff

Er mwyn cynorthwyo staff i gyflwyno gofal gwell, mae bron i bob ysbyty wedi penodi eiriolwyr dementia ar lefel y ward. Mae bron i 70% o ofalwyr yn rhoi sgôr uchel i'r gofal ar y cyfan. Mae'r staff yn dweud bod angen rhagor o gymorth arnynt, yn enwedig y tu allan i oriau gwaith, lle dywedodd llai na chwarter y staff eu bod nhw'n gallu cael cymorth arbenigol ar gyfer dementia 'bob amser' neu 'ran fwyaf o'r amser'.

## Cynnwys y person â dementia yn y broses ar gyfer gwneud penderfyniadau

Os cynigir newid llety ar ôl i'r claf gael ei ryddhau o'r ysbyty (e.e. o'i gartref ei hun i gartref gofal), ni chofnodwyd cydsyniad traean y cleifion i ddechrau'r broses hon, neu dystiolaeth y cynhaliwyd proses gwneud penderfyniad er eu budd pennaf, mewn achosion lle nad oedd galluedd ganddynt.

## Argymhellion allweddol

Isod, rydym yn cyflwyno'r argymhellion allweddol ar gyfer yr adroddiad hwn, yn ymwneud â'r canfyddiadau allweddol uchod. Gallwch weld rhestr gyflawn o'r argymhellion ar dudalen 87. Hefyd, mae pob thema'n cynnwys yr argymhellion cysylltiedig.

### Deliriwm

Dylai **Cyfarwyddwyr Meddygol a Nyrsio**:

- Sicrhau bod ysbytai wedi gosod mecanwaith cadarn ar gyfer asesu deliriwm mewn pobl â dementia:
  - Pan maent yn cael eu derbyn i'r ysbyty, dylid cynnal asesiad clinigol llawn ar gyfer deliriwm, os amlygir arwyddion o ddeliriwm.
  - Gwneud profion ymenyddol pan fyddant yn cyrraedd yr ysbyty ac unwaith eto cyn cael eu rhyddhau.
  - Sgrinio ac asesu deliriwm yn cael eu dogfennu'n llawn yn nodiadau'r cleifion (ni waeth beth yw'r canlyniad).
  - Cynnig gofal yn unol â'r argymhellion am ddeliriwm ar sail dystiolaeth pan fydd yr asesiad yn dangos symptomau deliriwm.
  - Cofnodi canlyniadau ar y crynodeb rhyddhau electronig.
- Sicrhau bod staff yn derbyn hyfforddiant mewn cysylltiad â deliriwm a'i berthynas â dementia, arddangos poen, a symptomau ymddygiadol a seicolegol dementia.

### Defnyddio gwybodaeth bersonol

- Dylai'r **Comisiynwyr Cenedlaethol (Llywodraeth Cymru, GIG Lloegr)** gynnig rhaglen fonitro sy'n cael ei chefnogi'n genedlaethol wedi'i hanelu at ymgorffori casglu, rhannu a defnyddio gwybodaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Dylai hyn gynnwys disgwyliad clir y bydd y wybodaeth hon yn dilyn y claf rhwng darparwyr pan fydd y wybodaeth hon wedi cael ei chasglu, a bydd hyn yn cael ei fonitro.

- Dylai **Rheolwyr Ward** archwilio cyflwyno/defnyddio'r wybodaeth bersonol a gasglwyd er mwyn gwella gofal i gleifion (e.e. Dyma fi, neu ddogfen arall a ddatblygwyd yn lleol). Dylid trosglwyddo canlyniadau'r archwiliad i'r eiriolwyr dementia/arweinydd dementia a staff y ward.

## Maetheg

- Dylai **Grwpiau Comisiynu Clinigol a gwasanaethau comisiynu Byrddau Iechyd** sicrhau bod y tendrau a ddosbarthir gan Ymddiriedolaethau ar gyfer cytundebau arlwyio newydd yn nodi'r ddarpariaeth bwydydd bys a bawd ar gyfer prif brydau bob amser, a darparu amrywiaeth o fyrbrydau 24 awr y dydd.
- Dylai **Cyfarwyddwyr Meddygol a Nyrsio** hyrwyddo presenoldeb gofalwyr allweddol er mwyn cynorthwyo gofal, ond gan sicrhau bod hyn yn cyd-fynd â'r gofal a ddarperir gan staff, nid ei ddisodli. Dylid monitro lefel y mewnbwn gan ofalwyr, a theimladau'r gofalwyr ynghylch faint o fewnbwn sydd ganddynt, trwy adborth, cwynion ac ymholiadau PALS y gofalwyr. Dylid gweld boddhad y gofalwyr fel dangosydd gofal effeithiol. Dylid cefnogi rheolwyr ward i sicrhau nad yw gofalwyr sy'n cynorthwyo cleifion yn cael eu gofyn i adael yn ystod amseroedd bwyd/cael eu hatal rhag helpu gyda phrydau bwyd (nid yw hyn yn cyfrif gofal a thriniaeth brys).

## Eiriolwyr Dementia

- Dylai'r **Prif Swyddog Gweithredol** sicrhau bod eiriolwr dementia ar gael i gynorthwyo staff 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos. Gellir cyflawni hyn trwy sicrhau bod pobl mewn rolau fel Ymarferwyr Nyrsio'r safle a Rheolwyr Gwlâu yn arbenigo mewn gofal dementia.

## Gwneud Penderfyniadau

- Dylai'r Arweinydd Diogelu sicrhau bod y staff yn cael hyfforddiant ar y Ddeddf Galluedd Meddyliol, gan gynnwys cydsyniad, defnyddio dulliau gwneud penderfyniadau er budd pennaf mewn ffordd briodol, defnyddio Atwrneiaeth Arhosol a gwneud penderfyniadau o flaen llaw. Dylai'r hyfforddiant gwmpasu cyfathrebu cadarnhaol ag aelodau'r teulu/gofalwyr ar y pynciau hyn.

## Rowndiau archwilio yn y dyfodol

Disgwylir, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, y bydd yr archwiliad a fanylir ynddo yn cael ei ailadrodd yn 2018, gan adrodd arno yn 2019.

## Gweithgarwch archwilio yn 2017-2018

### Cyhoeddi'r Rhaglen Canlyniadau Clinigol (COP)

Bydd yr archwiliad yn cyflwyno data o fesurau allweddol sy'n deillio o'r archwiliad o nodiadau achos a holiaduron gofalwyr a staff i'w cyhoeddi fel rhan o'r Rhaglen Canlyniadau Clinigol. Mae'r rhaglen hon yn dwyn ynghyd, ac yn cyhoeddi, mesurau o ansawdd uchel o amrywiaeth o archwiliadau, ac mae'n helpu i gynorthwyo eu cynnwys trwy lwyfannau hygyrch fel NHS Choices.



### **Archwiliad dewisol o nodiadau achos**

Mae'r offeryn archwilio nodiadau achos ar agor nes ddiwedd mis Gorffennaf 2017, er mwyn galluogi ysbytai sy'n dymuno adeiladu cofnod o flwyddyn i flwyddyn o berfformiad i gyflwyno rhagor o achosion.

### **Archwiliad sbotolau ar feddyginiaeth seicotropig**


Bydd y modiwl hwn yn ystyried meddyginiaeth y gellir ei rhoi fel presgripsiwn ar gyfer symptomau ymddygiadol a seicolegol dementia, sy'n cael ei dderbyn gan gleifion sy'n mynd i'r ysbyty ym mis Ebrill 2017. Bydd y modiwl hwn yn cael ei gyflwyno ym mis Awst, gyda dyddiad cau ym mis Hydref. Bydd yr adroddiad llawn yn cael ei gwblhau ym mis Chwefror 2018.

### **Gweithdai Gwella Ansawdd**

Yn dilyn cyhoeddi adroddiadau cenedlaethol a lleol, gall arweinwyr archwilio fynd i un o wyth gweithdy gwella ansawdd sy'n cael eu cynnal ledled Cymru a Lloegr ym mis Medi a Hydref 2017.

Bydd y gweithdai'n cael eu harwain gan Maureen McGeorge, sydd â nifer o flynyddoedd o brofiad yn datblygu a defnyddio rhaglenni gwella ym maes gofal iechyd. Bydd y gweithdai'n helpu arweinwyr i feddwl am ffyrdd ymarferol newydd o fynd i'r afael â'r diffygion sy'n cael eu hamlygu gan yr archwiliad.

# Cyfartaledd Sgoriau Ysbytai ledled Cymru a Lloegr



## Sgoriau cyfartalog ysbytai ledled Cymru a Lloegr

Mae'r sgoriau uchod yn gyfartaleddau o'r 7 thema sgorio yn yr adroddiad hwn, yn seiliedig ar ddata a gyflwynwyd gan 199 o ysbytai yng Nghymru a Lloegr. Mae holl sgoriau'r ysbytai i'w gweld yn Atodiad A.